**SWYDDOGOL – SENSITIF**
**SEFYDLIADOL A MASNACHOL**

Hydref 2025

**I :** **Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Prif Gwnstabl, y Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Prif Swyddog Cyllid**

Copi i: Uwch Swyddogion/Staff

Staff SCHTh

Gwasg

Annwyl Syr / Fadam,

Cynhelir cyfarfod o'r Bwrdd Perfformiad Strategol ar 03 Tachwedd 2025 yn Canolfan Gydlynu Strategol, Pencadlys yr Heddlu i drafod y busnes ar yr agenda atodedig. Os dymunwch fod yn bresennol hefyd, cysylltwch ag opcc@dyfed-powys.police.uk a fydd yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i chi. Er mwyn cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n ofynnol i chi roi o leiaf saith niwrnod o rybudd i warantu darpariaeth o'r fath fel y nodir ar ein gwefan. Os byddwn yn cael hysbysiad hwyr byddwn yn gwneud ein gorau i ddarparu'r gwasanaeth hwn ond ni allwn ei sicrhau.

Yours sincerely



**Carys Morgans**
**Prif Weithredwr**

# Bwrdd Perfformiad Strategol

**Dyddiad: 3ydd Tachwedd 2025**

**Amser: 09:30 – 12:30**

**Lleoliad: Ystafell 119 y Ganolfan Gydlynu Strategol, Pencadlys yr Heddlu**

**Cadeirydd y Cyfarfod: CHTh Dafydd Llywelyn**

**Y deilliannau ar gyfer y cyfarfod hwn:**

- Ceisio sicrwydd ynghylch materion sy'n effeithio ar ffydd a hyder y cyhoedd mewn plismona;
- Craffu ar berfformiad yn erbyn y blaenoriaethau strategol a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, ei gefnogi a'i herio;
- Dal y PG i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr Heddlu;
- Canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaethau effeithiol sy'n cefnogi dioddefwyr ac yn eu bodloni ac yn rhoi hyder i'r cyhoedd, gan gynnwys ystyried data perfformiad gwasanaethau a gomisiynir;

## Materion Gweinyddol

***Noder: ystyriwch a chadarnhewch pa un ai a yw'r holl eitemau ar gael i'w cyhoeddi'n rhagweithiol, neu pa un ai a fyddant ar gael ar gais.***

1. Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau *(Cadeirydd) (5 munud)*

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a diweddaru ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol. (10 munud)

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Diweddariad |
|---|---|---|
| SPB014 | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i roi adborth ar y cam gweithredu a godwyd gan y Panel Heddlu | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| | a Throseddu parthed y broses ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu sydd am gael mynediad i gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu. | |
| SPB015 | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol yr heddlu i gysylltu â'r Dirprwy Prif Gwnstabl ynghylch cynnal arolygon o gynghorau cymuned i geisio deall lefelau hyder ar hyn o bryd ac ymhen chwe mis. | Ar waith |
| SPB016 | Prif swyddogion i geisio eglurder ynghylch canslo cyfarfodydd diweddar yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn yr heddlu. | Cwblhawyd |
| SPB017 | Amserlen proses recriwtio ar gyfer Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu i'w darparu i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | Cwblhawyd |
| SPB018 | Adroddiadau perfformiad uniongyrchol a blaenoriaethol ar gam-drin domestig i'w rhannu â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | Cwblhawyd |
| SPB019 | Yr heddlu i ymchwilio'n fanwl i ddeall perfformiad o ran amseroedd ymateb i droseddau rhyw yn well. | Cwblhawyd |
| SPB020 | Rhannu proffil y farchnad gyffuriau â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| SPB021 | Canolbwyntio ar siop-ladrad ymhen amser. | Ar waith |
| SPB022 | Yr Heddlu i ystyried deall lefelau'r swyddogion o dimau plismona ac atal bro a roddir ar ddyletswyddau eraill. | Cwblhawyd |
| SPB023 | Prif swyddogion i ystyried sut y dylid ystyried comisiynu yn y broses gynllunio o fewn Datganiad Rheoli'r Heddlu a'r cylch cynllunio strategol. | Cwblhawyd |
| SPB024 | Manylion yr hyfforddiant Rheoli Newid i'w rhannu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | Cwblhawyd |

3. Perfformiad yr Heddlu
    a) Adroddiad Perfformiad yr Heddlu-Blaenoriaeth 1 (60 munud)
    b) Perfformiad yr Heddlu yn erbyn mesurau Trosedd a Phlismona Cenedlaethol (10 munud)

4. Trosolwg o Wasanaethau a Gomisiynir ac Arian Grant (20 munud)

5. Unrhyw Fusnes Arall (10 munud)
6. Adolygiad o'r holl gamau gweithredu a gymerwyd (Cadeirydd) (10 munud)
7. Cyfarfod Nesaf: 27 Ionawr 2026 10:30-13:30